# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

Dydd Iau, 25 Mawrth 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
D.M. Cundy a D. Thomas (yn lle T.J. Jones)

**Hefyd yn bresenol:**
A Brown – Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol
K. Havard – Archwilio Cymru
R. Thornton – Link Group
A. Quinn - Russell Investments
G. Fitzpatrick - Russell Investments
G. Lewis – BlackRock
D. Wright – BlackRock
V. Bhandari – BlackRock
A. Williams – Mercer
W. Summerfield - Mercer

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 2.00 yp - 5.15 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd T.J. Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 11EG IONAWR, 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.**

4. **COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 20 TACHWEDD, 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2020.**

5. **CYNLLUN ARCHWILIO 2021**

Croesawodd y Pwyllgor Kate Havard o Archwilio Cymru i'r cyfarfod a gyflwynodd yr adroddiad ar Gynllun Archwilio 2021 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed i'r Pwyllgor. Roedd y Cynllun yn nodi'r cwmpas arfaethedig, pryd i'w gyflawni, cost a chyfrifoldebau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai Archwilio Cymru oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r adroddiad ar y datganiadau cyfrifyddu a oedd yn cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a thegwch'. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd y byddai'r cyfrifon yn:

- rhydd rhag camddatganiad, p'un a wedi'i achosi gan dwyll neu wall
- cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill a
- cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddu.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y risgiau archwilio ariannol a byddai disgwyl iddynt gael eu nodi a'u rheoli fel rheol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Archwilio 2021.**

6. **MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2020 - 31 RHAGFYR 2020**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2020/21. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020, yn rhagweld tanwariant o £1.1m o ran arian parod.

O ran gwariant, roedd effaith net y buddion taladwy a'r trosglwyddiadau allan yn dangos tanwariant o £1.2m. Roedd hynny yn bennaf oherwydd cynnydd o 3% wrth bennu'r gyllideb ar gyfer pensiynwyr, y cynnydd gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn hyd yma oedd 1.5%. Roedd tanwariant o ran treuliau rheolwyr o £416k.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau, incwm buddsoddi a throsglwyddiadau i mewn yn dangos cynnydd o £2.5m, yn bennaf oherwydd Trosglwyddiadau i'r cynllun ac Incwm Buddsoddi yn fwy na'r swm o £ 1.2m a £ 1.1m a gyllidwyd yn y drefn honno.

Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gwariant yn £99.5m ac amcangyfrifwyd bod cyfanswm yr incwm yn £103.6m sy'n cynrychioli sefyllfa llif arian cadarnhaol o £4.1m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2020 i 31 Rhagfyr, 2020.**

## 7. CYLLIDEB CRONFA BENSIWN DYFED 2021 - 2022

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2021/22. Nodwyd bod y gwariant arian parod cysylltiedig ar gyfer 2021/22 a oedd wedi'i bennu ar £104.3m a'r incwm arian parod cysylltiedig o £104.3m wedi arwain at gyllideb net o £0 a oedd yn rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa ddefnyddio incwm buddsoddi ar sail gofynion llif arian.

O ran lefelau gwariant, nododd y Pwyllgor fod y buddion sydd i'w talu wedi cael eu hamcangyfrif i fod yn £92.4m a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd o 0.5% yn y pensiynau, ar sail Mynegai Prisiau Defnyddiwr mis Medi 2020, ynghyd ag effaith net o 3% ar gyfer aelodau newydd y pensiwn ac aelodau gohiriedig.

Amcangyfrifwyd bod treuliau rheoli yn £8.8m, ac o blith hwn roedd £6.9m wedi cael ei glustnodi ar gyfer ffioedd rheolwyr buddsoddi.

Amcangyfrifwyd bod incwm buddsoddi yn £12.3m er mwyn cynnal cyllideb niwtral yn ariannol a sicrhau nad oedd y gronfa yn cadw arian dros ben y byddai modd ei fuddsoddi.

Roedd y gyllideb gysylltiedig ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai arian parod wedi'i gosod ar £50m ar sail amcangyfrif yr enillion a'r colledion a gafwyd o ran portffolios rheolwyr unigol a gwerthiannau a phryniannau o fewn y portffolios eiddo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2021/22.**

## 8. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 IONAWR, 2021

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 31 Ionawr, 2021 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £14m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 9. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, dod â chyflogaeth cyflogwr i ben, y gofrestr torri amodau, i-Connect, adroddiadau Ansawdd Data, cysoniad GMP a llif gwaith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Gweinyddu Pensiwn mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 10. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2020-2021

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd gan y Pwyllgor fod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau lle roedd achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;
- bod yr analluu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Roedd y rheini bellach wedi dod i law felly nid oedd unrhyw adroddiad wedi'i anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 11. COFRESTR RISG 2021-2022

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith a oedd yn rhoi sylw i'r holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Rhoddwyd gwybod bod y gofrestr risg ar gyfer 2021-2022 wedi'i hadolygu i sicrhau bod risgiau wedi cael eu nodi a'u hasesu.

Byddai'r risgiau yn parhau i gael eu hadolygu'n chwarterol, a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo adroddiad y gofrestr risg ar gyfer 2021-2022.**

## 12. POLISI LLYWODRAETHU A DATGANIAD CYDYMFFURFIO 2021

Derbyniodd y Pwyllgor y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiaeth diwygiedig i'w ystyried.

Cynhaliwyd adolygiad ar Bolisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth Cronfa Bensiwn Dyfed. Roedd y Polisi Llywodraethu yn rhoi sylw i'r trefniadau yn ymwneud â:

- Llywodraethu'r Gronfa
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiwn
- Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol

- Cyfarfodydd y Pwyllgor
- Y Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol
- Y Bwrdd Pensiwn

Roedd y Datganiad Cydymffurfiaeth yn nodi cydymffurfiad y Gronfa ag egwyddorion arfer gorau mewn perthynas â strwythur, cynrychiolaeth, dewis, pleidleisio, hyfforddiant, cyfarfodydd, mynediad, cwmpas a chyhoeddusrwydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth 2021.**

## 13. CYNLLUN BUSNES 2021-2022

Cafodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w ystyried ar gyfer y cyfnod 2021-2022, yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021/22.**

## 14. CYNLLUN HYFFORDDI 2021-2022

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-2022, i'w ystyried, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2021-22.**

## 15. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU (PPC) DDIWEDDARAF GAN LINK A RUSSELL

Croesawodd y Pwyllgor Richard Thornton, Adrian Quinn a Gerard Fitzpatrick o Link and Russell i'r cyfarfod a chawsant adroddiad diweddaru ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP), ar gerrig milltir a chynnydd yr Is-gronfeydd canlynol ynghyd â'r Protocol Ymgysylltu a'r dyddiadau cyfarfod allweddol: -

- Tranche 3 - Incwm Sefydlog
- Tranche 4 – Marchnadoedd Datblygol
- Tranche 5 – Datblygu Strategaeth Marchnadoedd Preifat

Nododd y Pwyllgor fod yr ecwiti Twf Byd-eang presennol yn gyfanswm o £2.89b a bod cyfanswm y Gronfa Credyd Byd-eang yn £796m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariad gan Link and Russell ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

**16. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**17. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 RHAGFYR 2020**

[**SYLWER**: Am 4.55pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio y rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r materion a oedd yn weddill ar yr agenda.]

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020.**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, ei fod yn mynd i newid trefn y materion ar yr agenda er mwyn i'r adroddiadau a gyflwynwyd gan fynychwyr allanol gael eu hystyried yn gynt yn y cyfarfod.

**18. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 RHAGFYR 2020**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020.**

## 19. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 RHAGFYR 2020

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2020.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Rhagfyr 2020
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch4 2020
- Grŵp Partneriaid - Cyllid Chwarterol Hydref i Ragfyr 2020
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2020
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 20. BRIFF Y RHEOLWR BUDDSODDI - BLACKROCK

[**SYLWER**: Am 4.05 pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Gweithdrefn y Cyngor 8 - Cworwm gan nad oedd y cyfarfod yn gworwm mwyach. Gohiriwyd y cyfarfod ar unwaith ac fe'i hailgychwynnwyd ar ôl egwyl o 5 munud pan oedd holl aelodau'r Pwyllgor yn bresennol.

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Croesawodd y Pwyllgor Gavin Lewis, David Wright a Vikram Bhandari o BlackRock i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw priodol i adroddiad Briffio'r Rheolwr Buddsoddi - BlackRock ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020, a ddarparodd ddiweddariad ynghylch portffolio, buddsoddiad sydd ar y gweill, buddsoddi cynaliadwy a diweddariadau ynghylch daliadau portffolio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Briffio'r Rheolwr Buddsoddi - BlackRock ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020.**

## 21. DADANSODDIAD CYN-BONTIO O RAN AILSTRWYTHURO ECWITI

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 16 uchod,**

**fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Croesawodd y Pwyllgor Andrew Williams a William Summerfield o Mercer i'r cyfarfod, a gyflwynodd yr adroddiad.  Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad y Dadansoddiad Cyn-trosglwyddo ar gyfer Ailstrwythuro Ecwiti Cronfa Bensiwn Dyfed, a oedd yn darparu gwybodaeth am ddull trosglwyddo a dadansoddi portffolio, amserlen trafodion, meincnod trosglwyddo a strategaeth fasnachu a dadansoddiad cost a risg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y Dadansoddiad Cyn-trosglwyddo o ran Ailstrwythuro Ecwiti ar gyfer yr adroddiad Ailstrwythuro Ecwiti ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

| ___________________________ | ____________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |